OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 229 (Cy. 11)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Chwefror 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Chwefror 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Mawrth 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b), 44(9)(b), 143(1) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 143(2) o'r Ddeddf honno ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

## RHAN A

### Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Mawrth 2015 ond mae'n cael effaith o 1 Ebrill 2015.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1988 p. 41. Mewnosododd adran 61(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26) is-adran (4B) i adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mewnosododd adran 61(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 is-adran (9) i adran 44 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672, erthygl 2, Atodlen 1). Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

ystyr "blwyddyn ariannol berthnasol" ("*relevant fiancial year*") yw'r flwyddyn ariannol y mae trethdalwr wedi cyflwyno hysbysiad mewn cysylltiad â hi yn unol ag erthygl 16;

mae i "cod cyfathrebiadau electronig" yr un ystyr ag a roddir i "electronic communications code" yn adran 106(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**3**);

mae "cyfarpar cyfathrebiadau electronig" ("*electronic communications apparatus*") yn cynnwys—

(a) cyfarpar o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 1(1) o'r cod cyfathrebiadau electronig;

(b) strwythurau ar lun cytiau neu adeiladau eraill (gan gynnwys strwythurau nad ydynt ond yn rhan o adeilad) a ddefnyddir, neu a ddyluniwyd i'w defnyddio, ddim ond i gadw cyfarpar sy'n dod o fewn y disgrifiad ym mharagraff (a); ac

(c) unrhyw offer atodol a gaiff ei feddiannu at ddibenion person a drwyddedir o dan adran 8 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddiwifr 2006(**4**) neu berson y rhoddwyd iddo fynediad sbectrwm cydnabyddedig o dan adran 18 o'r Ddeddf honno, a dim ond ar gyfer hynny;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**5**);

ystyr "Deddf 1988" ("the 1988 Act") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

mae "gwerthu nwyddau" ("*sale of goods*") yn cynnwys gwerthu unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) pryd neu luniaeth i'w fwyta neu i'w yfed yn y fangre lle y caiff ei werthu neu ei baratoi neu i ffwrdd o'r fangre honno;

(b) diod feddwol i'w hyfed yn y fangre lle y caiff ei gwerthu neu i ffwrdd o'r fangre honno;

(c) petrol neu danwydd arall i yrru cerbydau modur a fwriedir ar gyfer eu defnyddio ar ffyrdd neu a addaswyd i'w defnyddio ar ffyrdd;

ystyr "hereditament a eithrir" ("excepted hereditament") yw hereditament—

(a) a ddefnyddir ar gyfer arddangos hysbysebion, parcio cerbydau modur, gweithfeydd trin carthion neu gyfarpar cyfathrebiadau electronig, a dim ond ar gyfer hynny;

(b) sy'n gwt glan môr neu'n swyddfa bost;

(c) sy'n hereditament a eithrir fel y'i diffinnir yn adran 47(9) o Ddeddf 1988(**6**); neu

(d) sy'n hereditament y Goron fel y diffinnir "Crown hereditament" yn adran 65A(4) o Ddeddf 1988(**7**);

mae "llofnod" ("signature"), "llofnodi" ("sign") neu "llofnodwyd", ("signed"), mewn perthynas â hysbysiad a gyflwynir yn unol ag erthygl 16(6) drwy gyfathrebiad electronig, yn cynnwys ymgorffori yn yr hysbysiad, neu gysylltu'n rhesymegol â'r hysbysiad, lofnod electronig, fel y'i diffinnir yn adran 7(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000;

ystyr "mangre fanwerthu" ("retail premises") yw unrhyw hereditament lle y cynhelir masnach neu fusnes sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn golygu gwerthu nwyddau;

(**3**) 2003 p. 21. Mae adran 106(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn darparu mai ystyr "the electronic communications code" yw'r cod a nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf Telegyfathrebiadau 1984 (p. 12).

(**4**) 2006 p. 36. Diwygiwyd adran 8 gan O.S. 2011/1210.

(**5**) Mae adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (p. 7) yn darparu mai ystyr "electronic communication" yw cyfathrebiad a drosglwyddir (pa un ai o un person i berson arall, o un ddyfais i ddyfais arall, neu o berson i ddyfais neu i'r gwrthwyneb)—

(a) drwy gyfrwng rhwydwaith cyfathrebiadau electronig; neu

(b) drwy gyfrwng arall ond mewn ffurf electronig.

(**6**) Diwygiwyd adran 47(9) gan baragraff 65 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14).

(**7**) Mewnosodwyd adran 65A gan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p. 29). Diwygiwyd is-adran (4) gan baragraff 73 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p. 16) a chan baragraffau 180 a 181 o Atodlen 16 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (p. 13).

ystyr "person wedi ei awdurdodi i lofnodi ar ran y trethdalwr" ("person authorised to sign on behalf of the ratepayer"), os yw'r trethdalwr—

(a) yn bartneriaeth, yw partner yn y bartneriaeth honno;

(b) yn ymddiriedolaeth, yw ymddiriedolwr yn yr ymddiriedolaeth honno;

(c) yn gorff corfforaethol, yw cyfarwyddwr yn y corff hwnnw, ac

mewn unrhyw achos arall, yw person wedi ei awdurdodi'n briodol i lofnodi ar ran y trethdalwr; ac

ystyr "swyddfa bost" ("post office") yw swyddfa bost gyhoeddus o fewn yr ystyr a roddir i "public post office" gan adran 125(1) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000(**8**).

### Darpariaeth gyffredinol ynghylch cymhwyso'r Gorchymyn hwn

**3.**—(1) Nid yw Rhan C o'r Gorchymyn hwn ond yn gymwys pan fo'r diwrnod y codir tâl mewn perthynas ag ef ar ddyddiad o fewn y cyfnod sy'n dechrau ag 1 Ebrill 2015 ac sy'n dod i ben ag 31 Mawrth 2016 ("y cyfnod perthnasol").

(2) Pan fo hereditament yn cydymffurfio ag—

(a) yr amodau yn erthygl 6, 7 neu 9 a hefyd (ar ddiwrnod y codir tâl mewn perthynas ag ef yn ystod y cyfnod perthnasol) yr amodau yn erthygl 12, 13 neu 14;

(b) yr amodau mewn mwy nag un o erthyglau 6, 7, 8 neu 9; neu

(c) (ar ddiwrnod y codir tâl mewn perthynas ag ef yn ystod y cyfnod perthnasol) yr amodau mewn mwy nag un o erthyglau 12, 13 neu 14,

yr erthygl sydd i fod yn gymwys yw'r erthygl sy'n cael yr effaith fod swm is yn daladwy mewn cysylltiad â'r hereditament.

### Uchafswm gwerth ardrethol ar gyfer rhyddhad ardrethi

**4.** At ddibenion adran 43(4B)(b)(i) o Ddeddf 1988, y swm a ragnodir ar gyfer hereditament yw £12,000.

## RHAN B

## Rhyddhad

### Amodau rhyddhad

**5.** Yr amodau i'w bodloni at ddibenion adran 43(4B)(b)(ii) o Ddeddf 1988 yw'r rhai a ragnodir yn erthyglau 6 i 9.

### Amodau gwerth ardrethol

**6.** Yr amodau gwerth ardrethol yw—

(a) nad yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £7,800;

(b) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir; ac

(c) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl.

(**8**) 2000 p. 26. Mewnosodwyd y diffiniad o "public post office" i is-adran (1) gan baragraff 49(1) o Atodlen 12 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 (p. 5).

**Amodau gofal plant**

**7.** Yr amodau gofal plant yw—

(a) bod yr hereditament yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd gan berson wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**9**);

(b) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir;

(c) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl;

(d) bod gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £2,000 ond nad yw'n fwy na £12,000; ac

(e) bod y trethdalwr wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod bilio mewn cysylltiad â'r hereditament yn unol ag erthygl 16.

**Amodau swyddfa bost**

**8.** Yr amodau a ragnodir gan yr erthygl hon ("yr amodau swyddfa bost") yw—

(a) y defnyddir yr hereditament, neu ran o'r hereditament, at ddibenion swyddfa bost;

(b) nad yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £12,000;

(c) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl; a

(d) bod y trethdalwr wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod bilio mewn cysylltiad â'r hereditament yn unol ag erthygl 16.

**Amodau mangre fanwerthu**

**9.** Yr amodau mangre fanwerthu yw—

(a) bod yr hereditament yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion mangre fanwerthu;

(b) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir;

(c) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl;

(d) bod gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £7,800 ond nad yw'n fwy nag £11,000;

(e) bod y trethdalwr wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod bilio mewn cysylltiad â'r hereditament yn unol ag erthygl 16; ac

(f) nad yw'r trethdalwr wedi rhoi hysbysiad yn unol ag erthygl 16 i'r awdurdod bilio, neu i unrhyw awdurdod bilio arall yng Nghymru, mewn cysylltiad ag unrhyw hereditament arall.

**Swm E**

**10.**—(1) Mae'r swm a bennir ym mharagraff (2) wedi ei ragnodi fel swm E at ddibenion adran 44(9) o Ddeddf 1988 pan fo'r amodau yn erthygl 6, 7, 8 neu 9 wedi eu bodloni.

(2) Mewn perthynas â hereditament, pan fo'r amodau a ragnodir gan yr erthygl a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl wedi eu bodloni a gwerth ardrethol yr hereditament o fewn yr ystod yn y golofn (2) gyfatebol, yna E yw'r swm a bennir yn y golofn (3) gyfatebol.

**Tabl**

| *(1)* | *(2)* | *(3)* |
|---|---|---|

(**9**) 2010 mccc 1.

| *Erthygl* | *Gwerth Ardrethol* *(£)* | *Swm E* |
|---|---|---|
| 6 (Gwerth Ardrethol) | 0 i 2,400 | 2 |
| 6 (Gwerth Ardrethol) | 2,401 i 7,800 | 1.333333 |
| 7 (Gofal Plant) | 2,001 i 12,000 | 2 |
| 8 (Swyddfa Bost) | 0 i 9,000 | 1,000,000 |
| 8 (Swyddfa Bost) | 9,001 i 12,000 | 2 |
| 9 (Mangre Fanwerthu) | 7,801 i 11,000 | 1.333333 |

# RHAN C

## Rhyddhad dros dro

### Amodau rhyddhad

**11.** At ddibenion adran 43(4B)(b)(ii) o Ddeddf 1988, yr amodau i'w bodloni yw'r rhai a ragnodir yn erthygl 12, 13 neu 14.

### Amodau gwerth ardrethol

**12.** Yr amodau gwerth ardrethol yw—

(a) nad yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £12,000;

(b) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir; ac

(c) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl.

### Amodau gofal plant

**13.** Yr amodau gofal plant yw—

(a) bod yr hereditament yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd gan berson wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

(b) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir;

(c) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl;

(d) nad yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £9,000; ac

(e) bod y trethdalwr wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod bilio mewn cysylltiad â'r hereditament yn unol ag erthygl 16.

### Amodau mangre fanwerthu

**14.** Yr amodau mangre fanwerthu yw—

(a) bod yr hereditament yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion mangre fanwerthu;

(b) bod gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £10,499 ond nad yw'n fwy nag £11,000;

(c) bod y trethdalwr wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod bilio mewn cysylltiad â'r hereditament yn unol ag erthygl 16; a

(d) nad yw'r trethdalwr wedi rhoi hysbysiad yn unol ag erthygl 16 i'r awdurdod bilio, neu i unrhyw awdurdod bilio arall yng Nghymru, mewn cysylltiad ag unrhyw hereditament arall.

**Swm E**

**15.**—(1) Mae'r swm a bennir ym mharagraff (2), neu a gyfrifir yn unol â'r paragraff hwnnw, wedi ei ragnodi fel swm E at ddibenion is-adran 44(9) o Ddeddf 1988 pan fo'r amodau yn erthygl 12, 13 neu 14 wedi eu bodloni.

(2) Mewn perthynas â hereditament, pan fo'r amodau a ragnodir gan yr erthygl a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod wedi eu bodloni a gwerth ardrethol yr hereditament o fewn yr ystod yn y golofn (2) gyfatebol, yna E yw'r swm a bennir neu a gyfrifir yn y golofn (3) gyfatebol.

**Tabl**

| *(1)*<br><br>*Erthygl* | *(2)*<br><br>*Gwerth Ardrethol*<br><br>*(£)* | *(3)*<br><br>*Swm E* |
|---|---|---|
| | 0 i 6,000 | 5,000,000 |
| 12 (Gwerth Ardrethol) | 6,001 i 12,000 | Cyfrifir yn unol â pharagraffau (3) a (4) o'r erthygl hon |
| 13 (Gofal Plant) | 0 i 6,000 | 5,000,000 |
| 13 (Gofal Plant) | 6,001 i 9,000 | Cyfrifir yn unol â pharagraffau (3) a (4) o'r erthygl hon |
| 14 (Mangre Fanwerthu) | 10,500 i 11,000 | 1.333333 |

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), cyfrifir swm E drwy rannu 6000 â'r ffigur a gyrhaeddir drwy dynnu 6000 o werth ardrethol yr hereditament a ddangosir yn y rhestr ardrethu annomestig leol ar gyfer y diwrnod hwnnw.

(4) Cyfrifir y symiau a gyfrifir o dan baragraff (3) i dri lle degol yn unig—

(a) drwy ychwanegu un milfed pan fyddai (ar wahân i'r is-baragraff hwn) fwy na phum deng milfed; a

(b) drwy anwybyddu'r deng milfedau pan fyddai (ar wahân i'r is-baragraff hwn) bum, neu lai na phum, deng milfed.

# RHAN D

## Amrywiol

**Hysbysiad**

**16.**—(1) Rhaid i hysbysiad o dan yr erthygl hon gynnwys yr wybodaeth a'r materion eraill a bennir yn Atodlen 1 a rhaid iddo gael ei lofnodi gan y trethdalwr neu gan berson wedi ei awdurdodi i lofnodi ar ran y trethdalwr.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) i (5), caniateir i hysbysiad a roddir heb fod yn hwyrach na 30 Medi mewn blwyddyn ariannol gael effaith o ddyddiad nad yw'n gynharach nag 1 Ebrill yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

(3) Ni chaniateir rhoi hysbysiad yn gynharach nag 1 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dod o flaen y flwyddyn ariannol berthnasol.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), mewn perthynas â'r hereditament y mae a wnelo'r hysbysiad ag ef—

(a) pan fo'r rhan o'r amodau perthnasol ynghylch gwerth ardrethol yn cael ei bodloni yn sgil newid rhestr ardrethu annomestig leol; a

(b) pan roddir hysbysiad o fewn 4 mis ar ôl y dyddiad pryd yr hysbysir yr awdurdod bilio o dan sylw am y newid yn unol â rheoliadau o dan adran 55 o Ddeddf 1988(**10**) (newid rhestrau),

caniateir i'r hysbysiad gael effaith o ddyddiad nad yw'n gynharach na'r dyddiad pryd y mae'r newid yn dod yn effeithiol o dan y rheoliadau hynny.

(5) Ni chaniateir i unrhyw hysbysiad gael effaith am ddiwrnod sy'n gynharach nag 1 Ebrill 2015.

(6) Mae hysbysiad i'w gyflwyno i'r awdurdod bilio o dan sylw drwy—

(a) ei gyfeirio at yr awdurdod; a

(b) ei ddanfon neu ei anfon i swyddfa'r awdurdod drwy'r post neu drwy gyfathrebiad electronig.

(7) Mae unrhyw hysbysiad a anfonir drwy gyfathrebiad electronig i'w ystyried, oni phrofir i'r gwrthwyneb, fel pe bai wedi ei gyflwyno ar yr adeg y daw i law ar ffurf ddarllenadwy.

(8) Pan fydd hysbysiad wedi ei roi mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol, caiff yr awdurdod bilio ei gwneud yn ofynnol i'r trethdalwr roi hysbysiadau pellach yn unol â'r erthygl hon mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol dilynol hynny y caiff yr awdurdod eu pennu o bryd i'w gilydd.

**Dirymu a darpariaeth arbed**

**17.** Mae'r Gorchmynion a bennir yn Atodlen 2 wedi eu dirymu ond maent yn parhau i fod yn gymwys i flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015 neu cyn hynny.

*Edwina Hart*
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, , un o Weinidogion Cymru

11 Chwefror 2015

(**10**) Diwygiwyd adran 55 gan baragraffau 30 a 79 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), paragraff 1 o Atodlen 10 a pharagraff 67 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14), paragraff 84 o Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19), a pharagraffau 2 a 3 o Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28).

## ATODLEN 1

Erthygl 16

### Gwybodaeth a materion eraill i'w cynnwys mewn hysbysiad

**1.** Enw, cyfeiriad (gan gynnwys cod post), rhif ffacs (os yw'n gymwys), rhif ffôn a chyfeiriad post electronig (os yw'n gymwys) y trethdalwr.

**2.** Cyfeiriad (gan gynnwys cod post) yr hereditament y gwneir cais am ryddhad ardrethi i fusnesau bach mewn cysylltiad ag ef ac, os yw hynny'n hysbys, ei rif cyfrif ardrethu annomestig.

**3.** Yn achos mangre a ddefnyddir ar gyfer gofal plant—

(a) cadarnhad—

(i) bod yr hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2 uchod yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion gofal plant fel a ddisgrifir yn y Gorchymyn hwn;

(ii) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl; a

(b) enw a chyfeiriad y darparwr cofrestredig a'i rif cofrestru.

**4.** Yn achos swyddfa bost, cadarnhad bod yr hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2 uchod yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion swyddfa bost fel a ddisgrifir yn y Gorchymyn hwn.

**5.** Yn achos mangre fanwerthu—

(a) cadarnhad—

(i) bod yr hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2 uchod yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion mangre fanwerthu fel a ddisgrifir yn y Gorchymyn hwn;

(ii) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl;

(b) cyfeiriad llawn unrhyw hereditament arall neu hereditamentau eraill yng Nghymru y mae'r trethdalwr yn ei feddiannu neu'n eu meddiannu neu wedi ei feddiannu neu eu meddiannu ar unrhyw adeg ers y dyddiad ym mharagraff 7 isod;

(c) cadarnhad nad yw'r trethdalwr nac unrhyw un ar ei ran wedi rhoi hysbysiad o dan erthygl 16 o'r Gorchymyn hwn i unrhyw awdurdod bilio yng Nghymru mewn cysylltiad ag unrhyw hereditament arall;

(d) os na ellir rhoi'r cadarnhad yn is-baragraff (c), rhaid darparu manylion llawn unrhyw hysbysiad a roddwyd i awdurdod bilio; ac

(e) ymgymeriad gan y trethdalwr (neu os nad y trethdalwr yw'r person sy'n llofnodi'r hysbysiad, ymgymeriad ar ran y trethdalwr) y bydd y trethdalwr, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn ysgrifennu i hysbysu'r awdurdod bilio o'r canlynol—

(i) cyfeiriad unrhyw hereditament yng Nghymru y mae'r trethdalwr wedi dechrau ei feddiannu ers iddo roi'r hysbysiad;

(ii) y dyddiad pryd y dechreuodd y trethdalwr feddiannu'r hereditament hwnnw;

(iii) y dyddiad pryd y peidiodd y trethdalwr â meddiannu'r hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2 at ddibenion mangre fanwerthu;

(iv) y dyddiad pryd y rhoddwyd hysbysiad i unrhyw awdurdod bilio yng Nghymru gan neu ar ran y trethdalwr o dan y Gorchymyn hwn mewn cysylltiad â hereditament ac eithrio'r un a grybwyllir ym mharagraff 2 a chyfeiriad yr hereditament arall hwnnw.

**6.** Ac eithrio yn achos swyddfa bost, cadarnhad nad yw'r hereditament yn eiddo a eithrir fel y'i disgrifir yn y Gorchymyn hwn.

**7.** Cadarnhad o'r naill neu'r llall o'r canlynol—

(a) y dyddiad pryd y cafodd yr hereditament ei ddefnyddio gyntaf fel a ddisgrifir yn yr hysbysiad a'i fod wedi parhau i gael ei ddefnyddio felly hyd at ddyddiad yr hysbysiad; neu

(b) y dyddiad y bydd yr hereditament yn cael ei ddefnyddio gyntaf fel a ddisgrifir uchod.

**8.** Ymgymeriad gan y trethdalwr (neu os nad y trethdalwr yw'r person sy'n llofnodi'r hysbysiad, ymgymeriad ar ran y trethdalwr) y bydd y trethdalwr, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn ysgrifennu i hysbysu'r awdurdod bilio os yw o'r farn y gallai beidio â bod mwyach yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi o dan y Gorchymyn hwn.

**9.** Awdurdodiad gan y trethdalwr yn awdurdodi'r awdurdod bilio y rhoddir yr hysbysiad iddo i gaffael gan unrhyw berson unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod o'r farn ei bod yn berthnasol at ddibenion cadarnhau unrhyw wybodaeth a roddir yn yr hysbysiad neu at ddibenion sicrhau mewn unrhyw ddull arall gymhwystra'r trethdalwr i gael rhyddhad mewn cysylltiad â'r hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2.

**10.** Llofnod y trethdalwr neu'r person wedi ei awdurdodi i lofnodi ar ran y trethdalwr.

**11.** Disgrifiad o swyddogaeth y person sy'n llofnodi'r hysbysiad.

**12.** Dyddiad yr hysbysiad.

## ATODLEN 2

Erthygl 17

### Dirymu ac arbed

| *Gorchmynion sydd wedi eu dirymu* | *Cyfeirnodau* |
|---|---|
| Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 | O.S. 2008/2770 (Cy. 246) |
| Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2010 | O.S. 2010/273 (Cy. 36) |
| Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010 | O.S. 2010/2223 (Cy. 195) |
| Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2011 | O.S. 2011/995 (Cy. 148) |
| Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2012 | O.S. 2012/465 (Cy. 76) |
| Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2013 | O.S. 2013/371 (Cy. 44) |
| Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2014 | O.S. 2014/372 (Cy. 40) |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Mawrth 2015 ond mae'n cael effaith o 1 Ebrill 2015 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ailddeddfu Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/2770) gyda diwygiadau. Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi a chynllun rhyddhad ardrethi dros dro. Bydd y cynllun rhyddhad ardrethi dros dro yn rhedeg o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2016 ac nid yw ond yn gymwys i gategorïau penodol o hereditament.

Mae Rhan A o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaeth gyffredinol sy'n cynnwys y diffiniad o hereditamentau sydd wedi eu heithrio o'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.

Mae erthygl 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 4 yn rhagnodi £12,000 fel uchafswm gwerth ardrethol hereditamentau a allai fod yn gymwys i gael rhyddhad rhag ardrethi annomestig.

Mae Rhan B o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch y cynllun rhyddhad, ond mae'n ddarostyngedig i'r cynllun rhyddhad ardrethi dros dro y darperir ar ei gyfer yn Rhan C.

Mae erthyglau 5 i 9 yn rhagnodi amodau cymhwystra ar gyfer rhyddhad rhag ardrethi annomestig.

Mae erthygl 10 yn rhagnodi swm E at ddibenion y fformiwla a geir yn adran 43(4A)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'r fformiwla honno'n darparu'r mecanwaith ar gyfer cyfrifo swm yr ardrethi annomestig sy'n daladwy mewn cysylltiad â hereditamentau cymwys o dan y cynllun rhyddhad ardrethi.

Effaith erthyglau 5 i 10 yw rhoddi, yn ddarostyngedig fel a ddynodir yn yr erthyglau hynny, y rhyddhad ardrethi sydd yn y tabl eglurhaol isod—

| *Math o Amod* | *Gwerth Ardrethol*<br><br>*(£)* | *Rhyddhad*<br><br>*%* |
|---|---|---|
| Gwerth Ardrethol | 0 i 2,400 | 50 |
| Gwerth Ardrethol | 2,401 i 7,800 | 25 |
| Gofal Plant | 2,000 i 12,000 | 50 |
| Swyddfa Bost | 0 i 9,000 | 100 |
| Swyddfa Bost | 9,001 i 12,000 | 50 |
| Mangre Fanwerthu | 7,801 i 11,000 | 25 |

Mae Rhan C yn gwneud darpariaeth ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi dros dro sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2015 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2016.

Mae erthyglau 11 i 14 yn rhagnodi'r amodau cymhwystra o dan y cynllun rhyddhad ardrethi dros dro.

Mae erthygl 15 yn rhagnodi swm E at ddibenion y fformiwla a geir yn adran 43(4A)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'r fformiwla honno'n darparu'r mecanwaith ar gyfer cyfrifo swm

yr ardrethi annomestig sy'n daladwy mewn cysylltiad â hereditamentau cymwys o dan y cynllun rhyddhad ardrethi dros dro.

Mae Rhan D yn darparu bod gwybodaeth i gael ei chynnwys yn yr hysbysiad sydd i'w roi i awdurdodau bilio, yn darparu ar gyfer yr amser y mae hysbysiad o'r fath i'w gyflwyno ynddo ac yn darparu ar gyfer y dull o'i gyflwyno.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeilio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.